# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD TACHWEDD 2019

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 20fed o Dachwedd, 2019** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Bryn Hughes, Gwilym Thomas, Peter Roberts, Huw Rowlands, Nerys Evans, Jason Hunt, Gwilym Williams ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elin Evans, Rhodri Dwyfor, Tom Ellis ag Aeron M Jones. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Dim. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 16.10.19 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan GT ag eiliwyd gan BH. |
| **5.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Gwmni Gwalch. Gofynnwyd i'r clerc edrych ar ffeil Bryngwyn i weld oes oedd y pyst wedi eu trin cyn eu gosod a beth oedd y warant, gan fod llai na 10 mlynedd  ers eu gosod ger Tyddyn Canol.<br><br>b) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023<br>Yn absenoldeb AMJ, gofynnwyd i'r clerc ei holi am ddiweddariad.<br><br>c) Problem Llygod – ardal Rhosgadfan<br>Adroddwyd fod y broblem dal i barhau. Nodwyd y byddai'n fuddiol cael lluniau gan drigolion ag ail-ysgrifennu at CG i ddweud nad ydym yn derbyn eu sylwadau, gan fod y dystiolaeth mae'r Cyngor Cymuned yn ei dderbyn ddim yn cydnabod hynny.<br><br>d) Llwybrau cyhoeddus<br>Llwybr Waun Bant - eglurodd y clerc bod yr heddlu wedi bod mewn cysylltiad yn rhybuddio'r Cyngor i'r contractwr torri gwair beidio â thresmasu ar y llwybr nes y bydd wedi ei gofrestru'n ffurfiol. Eglurodd y clerc fod CG yn y broses o anfon ffurflenni newydd i'w llenwi er mwyn cofrestru'r llwybr hwn.<br><br>e) RD – gwydrau o gwmpas ardal Rhosgadfan<br>Yn absenoldeb RD, penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>f) BH – Mabwysiadu Rheolau Mynwentydd<br>Eglurodd BH ei fod wedi gwneud mân newidiadau i'r rheolau mynwentydd:<br>***Rheol 3** – ychwanegiad i gynnwys "Os yw deilydd yr hawl claddu cyfyngedig i'w roi i orffwys yn y bedd, yna nid oes angen caniatâd ysgrifenedig, dim ond tystiolaeth o'r hawl claddu, ac mae'r hawl claddu wedyn yn mynd yn rhan o ystâd yr ymadawedig".*<br>***Rheol 4** – newidiadau i gymal 4.1 – "Os yw'r ymadawedig wedi byw o fewn y gymuned hyd at 5 mlynedd cyn y farwolaeth, yna bydd y ffi'r gymuned yn berthnasol". Cymal 4.2 – "Caniateir i unrhyw berthynas sydd yn cael ei gladdu mewn bedd lle claddwyd person o'r gymuned yr hawl i ffi'r gymuned – pa bynnag lleoliad ei breswylfa".Cymal newydd 4.3 – "Mae gan berson yr hawl i'w ystyried yn berson o'r gymuned wedi iddynt symud i breswylfa o fewn y gymuned ac wedi cychwyn talu Treth y Gymuned sydd yn cynnwys Archebiant y Cyngor Cymuned".* |

***Rheol 19** – ychwanegu –“Mae’n ofynnol i unrhyw waith gydymffurfio a safonau NAMM (National Association of Monumental Masons)”.*

Derbyniwyd a mabwysiadwyd y rheolau diwygiedig gyda NE cynnig a GT yn eilio. Estynnwyd diolch i BH am ei holl waith yn ei baratoi.

g) NE - Ffurflen Cofrestru Buddiannau Personol
Dosbarthwyd ffurflenni newydd ar gyfer y flwyddyn 2019-2020.

h) Meysydd Chwarae
Derbyniwyd llythyr gan GG yn holi os byddai’r Cyngor Cymuned yn fodlon cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am gaeau chwarae Rhostryfan a Saron? Gofynnwyd i’r clerc ail-gysylltu i holi am fwy o wybodaeth, a beth fyddai’r oblygiadau a’r cyfrifoldebau o gymryd hyn ymlaen.

i) Japanese Knotweed
Derbyniwyd e-bost gan Swyddog Prosiect Uwch Gwyrfai ynglŷn â thrin a rheoli’r Japanese Knotweed. Penderfynodd y Cyngor i beidio ag anfon 2 x aelod ar gwrs hyfforddiant i reoli’r JK. Gofynnwyd i’r clerc gysylltu’n ôl i ofyn a fyddai’r Swyddog Prosiect Uwch Gwyrfai yn fodlon dechrau ar y gwaith eu difa ac yna'r Cyngor Cymuned dalu contractwr i barhau gyda’r broses.

j) Cynllun Bioamrywiaeth
Esboniodd y clerc bod angen creu Cynllun Bioamrywiaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Awgrymodd HR i’r clerc edrych ar gynllun Cyngor Cymuned Llandybie er mwyn cael braslun o beth oedd ei angen.

k) Hysbysebu ceisiadau nawdd
Penderfynwyd rhoi hysbysiad am geisiadau nawdd yn y rhifyn nesaf o Lleu.

## 6. Derbyn Adroddiadau

a) Adroddiad gan Dion, Prosiect Uwch Gwyrfai- sylwadau GT
Adroddodd GT, fod Dion o Brosiect Uwch Gwyrfai wedi cyfarfod disgyblion Ysgol Rhosgadfan a gofyn iddynt beth a ble oedd yn bwysig iddynt. Gofynnwyd i’r clerc holi’r Ysgol beth oedd eu hymateb?

b) Ymateb Adran Priffyrdd CG
Twmpath pridd - Caeau Uchaf, Rhosgadfan - Uned waith stryd yn cael golwg ar y safle.
Cattle grid- Muriau, Rhosgadfan - rhaglen waith yn cael ei roi at ei gilydd i gynnal a chadw holl gridiau comin Uwch Gwyrfai
Arwydd 30mya Goat Llanwnda (o gyfeiriad Stables) - mater i godi gyda’r Uned Drafnidiaeth o fewn y Gwasanaeth Amgylchedd - nhw fyddai yn ei asesu.

c) Derbyniwyd pris o £950 gan y contractwr torri gwair i gyflawni gwaith atgyweirio’r ffordd ar Lwybr Bryngwyn. Penderfynwyd disgwyl i’r gaeaf fynd heibio cyn cychwyn ar y gwaith.

| | |
|---|---|
| **7.** | **Materion Ariannol** |
| | **a) <u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 20fed o Dachwedd, 2019</u>** |

**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (16.10.19) | 45,630.99 |
| - Trosglwyddo £3000 i'r cyfrif cyfredol | - 3,000.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 20fed o Dachwedd, 2019** | **£42,630.99** |

**<u>2. Cyfrif Siec</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (16.10.19) | **4023.91** |
| + claddedigaethau | + 1120.00 |
| + Trosglwyddo o'r cyfrif cadw | + 3000.00 |
| - 101440 Cyflog y Clerc - Hydref 2019 | 465.40 |
| - Cyllid y Wlad – Hydref 2019 | 105.60 |
| - 101441 Arwel Evans – tap y fynwent | 69.60 |
| - 101442 Gwalch - cynnal a chadw mynwent | 2296.22 |
| **Balans ar derfyn busnes 20fed o Dachwedd, 2019** | **<u>£5207.09</u>** |

**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 20fed o Dachwedd, 2019</u>**

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc - Tachwedd 2019 | 465.20 |
| Cyllid y Wlad – Tachwedd 2019 | 105.80 |
| Cyflog y Clerc – Rhagfyr 2019 | 465.40 |
| Cyllid y Wlad – Rhagfyr 2019 | 105.60 |
| Cyngor Gwynedd – Archwiliad mewnol 18/19 | 180.00 |
| Swyddfa Archwilio Cymru – 17/18 | 311.40 |
| Swyddfa Archwilio Cymru – 18/19 | 277.10 |
| Wyn Williams | 1540.50 |
| **Cyfanswm** | **<u>£3451.00</u>** |

Cytunwyd i'r taliadau ar gyfer y mis hwn.

| | |
|---|---|
| **8.** | **Materion Cynllunio** |
| | a) Cais – C19/1044/24/LL – Estyniad unllawr ochr – Garreg Lwyd, Rhostryfan LL54 7NT<br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.** |
| **9.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | a) CAB – Hysbysiad Cyfarfod Blynyddol<br>Rhoddwyd gwybodaeth am ddyddiad a lleoliad y cyfarfod.<br><br>b) Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Antur Nantlle<br>Rhoddwyd gwybodaeth am ddyddiad a lleoliad y cyfarfod. |

| 10. | Materion Cyfarfod Nesaf |
|---|---|
| | GT – grit / bocsys wedi torri a gwag. Ymateb Dyfrig Siencyn i'r biniau halen?<br><br>JH – Waun Bant – Jason am son wrth y trigolion.<br><br>GT - Clerc Llandwrog - llwybr o flaen tŷ Tan y Foel Fawr (dargyfeirio).<br><br>NE - Er gwybodaeth cynllun lliniaru llifogydd - Mai ag Awst, sgwâr Rhostryfan yn cau am 6 x wythnos - os ydi'r grant yn llwyddiannus. Dargyfeirio trigolion Rhosgadfan drwy Groeslon.<br><br>GW - Lon Cae Garw o sgwâr Rhos Isaf, angen ei lanhau o flaen Isfryn .<br><br>MW – Ty hen, Rhosgadfan – dwr yn rhedeg – peryg i'r fforch rewi?<br><br>PR - Penffordd, Rhosgadfan (heibio'r clwb) - ceir wedi parcio agos i'r gyffordd.<br><br>HR - Nodwyd ei fod am fynychu cyfarfod Grŵp Cynefin mis Rhagfyr.<br><br>**Dyddiad: 15fed o Ionawr, 2020**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |